# Gŵyl Ein Llais yn y Byd
# Our Voice in the World Festival

28-29 Tachwedd, 2019 | Hen Goleg, Aberystwyth

## Rhaglen

### Dydd Iau, 28 Tachwedd

| Amser | Sesiwn | | |
|---|---|---|---|
| **09:00-10:50** | Cwad yr Hen Goleg<br>**Cofrestru a Phaned** | | |
| **11:00-11:30**<br>*Sesiwn Lawn* | Hen Neuadd<br>**Araith Agoriadol**<br>Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | | |
| **11:30-12:30**<br>*Sesiwn Lawn* | Hen Neuadd<br>**MAMIAITH**—Sesiwn o ganeuon a myfyrdodau gyda cherddorion rhyngwladol am bwysigrwydd creu yn ein mamiaith a pherfformio ar lwyfannau byd.<br>*Cyflwynir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO 2019.* | | |
| **12:30-13:30** | **Cinio** - Cwad yr Hen Goleg | | |
| | Hen Neuadd | Ystafell Seddon | Ystafell y Cyngor |
| **13:30-14:25**<br>*Sesiynau Cydamserol* | **O Dwrw Tanllyd i Ffrydi Nora**<br>Bwrw golwg yn ôl ac ymlaen ar lwyddiant y sîn gerddoriaeth gyfoes Gymraeg<br><br>*Trefnir gan Y Selar* | **Adeiladu'r Pyramid – cynllunio ieithyddol ym maes addysg ôl-16**<br>Gweithdy i ystyried y cyfleoedd yn y sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau yng Nghymru o safbwynt y Gymraeg a dwyieithrwydd.<br>*Trefnir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* | **Ieithoedd lleiafrifol, llywodraethau a'r gyfraith: safbwyntiau Cymreig ac Ewropeaidd**<br>Trafodaeth bord gron gydag arbenigwyr rhyngwladol.<br><br>*Trefnir gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru – WISERD@Aberystwyth* |
| **14:30-15:25**<br>*Sesiynau Cydamserol* | **Croeso i bawb: cyrraedd cynulleidfaoedd aml-diwylliannol**<br>Trafodaeth Panel<br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.* | **Harneisio'r Safonau er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg**<br>Gweithdy 'gofod agored' i rannu arferion da<br>*Trefnir gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chylch Diddordeb Iaith a Diwylliant, RCE Cymru* | **Lleisio Iwerddon a Chymru?**<br>Sesiwn sy'n archwilio'r cysylltiadau diwylliannol creadigol rhwng Cymru ac Iwerddon<br>*Trefnir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth* |
| **15:25-15:45** | **Paned**—Cwad yr Hen Goleg | | |
| | Hen Neuadd | Ystafell Seddon | Ystafell y Cyngor |
| **15:50-16:30**<br>*Sesiynau Cydamserol* | **Alexa, wyt ti'n siarad Cymraeg?**<br>Heriau'r dyfodol ac arfer da mewn datblygiad technoleg ar gyfer ieithoedd llai<br><br>*Trefnir gan Hacio'r Iaith* | **O lygad y ffynnon – dathlu cyfraniad Gwerddon i faes ymchwil ac ysgolheictod yng Nghymru, a thu hwnt**<br>Darlithoedd meicro yn seiliedig ar erthyglau am iaith a diwylliant a gyhoeddwyd yn *Gwerddon*<br>*Trefnir gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* | **Y Mentrau Iaith- cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned**<br><br>*Trefnir gan Mentrau Iaith Cymru* |
| **16:35-17:35**<br>*Sesiwn Lawn* | Hen Neuadd<br>**Cymru yn y Byd -** Eluned Morgan yn holi dau o'n llenorion mwyaf disglair, Alys Conran ac Eurig Salisbury, am eu siwrneau rhyngwladol drwy iaith a diwylliant.<br>*Mewn partneriaeth â Hay Festival* | | |
| **17:35-20:30** | **Amser Rhydd** | | |
| **20:30 - Hwyr** | **Gig Cerddoriaeth Fyw**—Tafarn Yr Hen Lew Du | | |

## Dydd Gwener, 29 Tachwedd

| Amser | Sesiwn | | |
|---|---|---|---|
| **09:30-10:30** *Sesiwn Lawn* | Hen Neuadd<br>**Betsan Powys yn holi Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**<br>*Trefnir gan Lywodraeth Cymru* | | |
| | Hen Neuadd | Ystafell Seddon | Ystafell y Cyngor |
| **10:35-11:20** *Sesiynau Cydamserol* | **Buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf: rhoi'r Gymraeg i'n plant ifancaf**<br>Trafodaeth Panel<br><br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin.* | **Tiriogaeth, rhwydweithiau a lleoliadau: cynllunio iaith i'r Gymru gyfoes**<br>Gweithdy ymarferol ar gyfer uni-golion sy'n gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg fydd yn ystyr-ied newidiadau cymdeithasol cyfoes a'u goblygiadau i sut ddylid cynllunio ymyrraethau sy'n hybu defnydd o'r iaith.<br>*Trefnir gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru – WISERD@Aberystwyth* | **Y Bardd Cenedlaethol – a Rhyngwladol?**<br>Eurig Salisbury yn holi'r prifardd Ifor ap Glyn am ei waith fel Bardd Cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt<br><br>*Trefnir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru* |
| **11:20-11:45** | **Paned—**Cwad yr Hen Goleg | | |
| | Hen Neuadd | Ystafell Seddon | Ystafell y Cyngor |
| **11:45-12:30** *Sesiynau Cydamserol* | **Camu i lwyfan byd-eang – meithrin perthynas gyda phartneriaid rhyngwladol i hyrwyddo iaith, diwylliant ac ysgolheictod Cymru**<br>Trosolwg o gynlluniau cyffrous y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cysylltiadau ar draws y byd<br>*Trefnir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* | **Rhannu a dysgu yn rhyngwladol: Hybu defnydd iaith drwy chwaraeon – achos Gwlad y Basg**<br>Yn ystod y sesiwn hon bydd cyfle i ddysgu am brosiect arloesol i hybu defnydd o'r Fasgeg trwy weithio gyda chymdeithasau chwaraeon.<br><br>*Trefnir gan Rhwydwaith Ymchwil Iaith, Diwylliant a Hunaniaethau WISERD* | **Trawsnewid digidol – arferion da dysgu iaith**<br>Trafodaeth Panel<br><br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â SaySomethingin* |
| **12:35-13:10** *Sesiwn Lawn* | Hen Neuadd<br>**Cloriannu a Chloi** | | |
| **13:10-14:10** | **Cinio a Ffarwel -** Cwad yr Hen Goleg | | |

**Prif Bartneriaid a Noddwyr | Main Partners and Sponsors**

**Partneriaid a Chyfranwyr | Partners and Contributors**

# Manylion Sesiynau

## Dydd Iau, 28 Tachwedd

| | |
|---|---|
| **Dydd Iau**<br>**11:00-11:30**<br>*Sesiwn Lawn*<br>*Hen Neuadd* | **Araith Agoriadol**<br>Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol<br><br>**Siaradwr:**<br>• Eluned Morgan AC (Llywodraeth Cymru) |
| **Dydd Iau**<br><br>**11:30-12:30**<br><br>Sesiwn Lawn<br><br>*Hen Neuadd* | **MAMIAITH**—Sesiwn o ganeuon a myfyrdodau gyda cherddorion rhyngwladol am bwysigrwydd creu yn ein mamiaith a pherfformio ar lwyfannau byd.<br><br>**Cerddorion:**<br>• Georgia Ruth Williams<br>• Jordan Price Williams<br>• Doimnic Mac Giolla Bhríde<br>• Lauren Ní Chasaide<br>• Rona Wilkie<br><br>*Cyflwynir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO 2019.* |
| | |
| **Dydd Iau**<br><br>**13:30-14:25**<br><br>*Hen Neuadd* | **O Dwrw Tanllyd i Ffrydi Nora:** bwrw golwg yn ôl ac ymlaen ar lwyddiant y sîn gerddoriaeth gyfoes Gymraeg.<br><br>Bydd y sesiwn yma'n mynd o dan groen hyrwyddo cerddoriaeth iaith Gymraeg mewn diwydiant sy'n cael ei reoli gan y Saesneg. Sut mae cerddoriaeth Gymraeg wedi llwyddo i ffeindio ei ffordd, gan barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd dros y degawdau, gan lwyddo i greu impact tu hwnt i Gymru fach? Bydd y sgwrs yn canolbwyntio'n arbennig ar lwyddiant y sin i ymateb i'r chwyldro digidol, a manteisio ar y cyfleoedd mae hynny wedi cynnig.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Owain Schiavone (Y Selar)<br>• Elan Evans (Clwb Ifor Bach a Gŵyl Sŵn)<br>• Gruff Owen (Recordiau Libertino)<br>• Steff Rees (Bwca / Gigs Cantre'r Gwaelod)<br><br>*Trefnir gan Y Selar* |
| **Dydd Iau**<br><br>**13:30-14:25**<br><br>*Ystafell Seddon* | **Adeiladu'r Pyramid – cynllunio ieithyddol ym maes addysg ôl-16**<br>Gweithdy i ystyried y cyfleoedd yn y sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau yng Nghymru o safbwynt y Gymraeg a dwyieithrwydd.<br><br>Lansiwyd Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau gan y Gweinidog Addysg Kirsty Williams ym mis Ionawr 2019. Mae'n gynllun uchelgeisiol sydd yn amlinellu gweledigaeth i alluogi pob dysgwr i gynnal neu ddatblygu ei sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>Cewch glywed am y datblygiadau cyffrous ers lansio'r cynllun cyn trafod y cyfleoedd i wireddu'r strat egaeth, a sicrhau cyfraniad sylweddol yr agenda pwysig hwn at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Cyfrannwyr:**<br>• Dr Lowri Morgans ( Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)<br>• Lisa O'Connor (Coleg Sir Benfro)<br><br>*Trefnir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* |

| | |
|---|---|
| **Dydd Iau**<br><br>**13:30-14:25**<br><br>*Ystafell y Cyngor* | **Ieithoedd lleiafrifol, llywodraethau a'r gyfraith: safbwyntiau Cymreig ac Ewropeaidd**<br>Trafodaeth bord gron yng nghwmni panel o arbenigwyr rhyngwladol a fydd yn cymharu a chloriannu'r grymoedd gwahanol a ddefnyddir gan lywodraethau, ynghyd â sefydliadau cyhoeddus eraill, er mwyn hyrwyddo neu danseilio rhagolygon gwahanol ieithoedd lleiafrifol.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Dr Elin Royles—Cadeirydd (Prifysgol Aberystwyth)<br>• Yr Athro Emyr Lewis (Prifysgol Aberystwyth)<br>• Gwenith Price (Comisiynydd y Gymraeg)<br>• Dr John Walsh (Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway)<br><br>*Trefnir gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru – WISERD@Aberystwyth* |
| | |
| **Dydd Iau**<br><br>**14:30-15:25**<br><br>*Hen Neuadd* | **Croeso i bawb: cyrraedd cynulleidfaoedd aml-diwylliannol**<br>Trafodaeth Panel<br>Bydd y sesiwn yma yn ystyried y sialensiau o gyrraedd cynulleidfaoedd aml-ddiwylliannol. Byddwn yn trafod gwaith ymchwil yn ogystal â phrofiadau ymarferol er mwyn gallu annog a chynorthwyo pobl o bob math o gefndiroedd i deimlo'n rhan o'u cymunedau newydd.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Helen Proser - Cadeirydd (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)<br>• Lowri Bunford Jones (Dysgu Cymraeg, Caerdydd)<br>• Dr Gwennan Higham (Prifysgol Abertawe)<br><br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.* |
| **Dydd Iau**<br><br>**14:30-15:25**<br><br>*Ystafell Seddon* | **Harneisio'r Safonau er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg**<br>Gweithdy 'gofod agored' i rannu arferion da<br><br>Beth yw eich profiadau chi o geisio hybu defnydd o'r Gymraeg, yn arbennig yng nghyd-destun y safonau? Dewch i rannu eich profiadau a chasglu syniadau.<br><br>Digwyddiad 'gofod agored' a drefnir yn unol ag arferion BarCamp. Yn hytrach na rhaglen ffurfiol, bydd cyfres o slotiau cyflwyno (10 munud yr un) a bydd modd i unrhyw hawlio slot a chyflwyno ar bwnc o'u dewis cyhyd a'i fod (yn fras) yn trafod syniadau ac arfer da ynghylch dulliau o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Croesewir cyflwyniadau hefyd arferion da hybu defnydd mewn iaith leiafrifol neu ranbarthol arall.<br><br>**Hwyluswyr y Sesiwn:**<br>• Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth)<br>• Steffan Jones ( Comisiynydd y Gymraeg)<br><br>*Trefnir gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chylch Diddordeb Iaith a Diwylliant, RCE Cymru* |
| **Dydd Iau**<br><br>**14:30-15:25**<br><br>*Ystafell y Cyngor* | **Lleisio Iwerddon a Chymru?**<br>**Glórtha na hÉireann agus na Breataine Bige?**<br>Ymunwch â'r beirdd Louis de Paor ac Eurig Salisbury i archwilio'r cysylltiadau diwylliannol creadigol rhwng Cymru ac Iwerddon. Bydd Louis de Paor yn darllen ei farddoniaeth yn yr Wyddeleg ochr yn ochr â chyfeithiadau Saesneg.<br><br>Bígí linn agus nascanna na cruthaíochta idir Éire agus an Bhreatain Bheag á gcíoradh ag na filí Louis de Paor agus Eurig Salisbury. Léifidh Louis de Paor cuid dá dhánta i nGaeilge agus aistriúcháin Bhéarla.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Louis de Paor (Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway)<br>• Eurig Salisbury (Prifysgol Aberystwyth)<br><br>*Trefnir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth* |

| | |
|---|---|
| | |
| **Dydd Iau**<br><br>**15:50-16:30**<br><br>*Hen Neuadd* | **Alexa, wyt ti'n siarad Cymraeg?**<br>Heriau'r dyfodol ac arfer da mewn datblygiad technoleg ar gyfer ieithoedd llai.<br><br>Yn y sesiwn hwn edrychir ar yr heriau sy'n wynebu siaradwyr iaith leiafrifol wrth ddefnyddio technolegau sydd yn gynyddol greiddiol i bob agwedd o'n bywyd bob dydd. Ond gyda phob her, daw cyfle hefyd, a bydd y tri yn trafod pa lwyddiannau sydd wedi bod yn y maes gan edrych lle gallwn weld y datblygiadau nesa'n mynd â ni.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Rhodri ap Dyfrig (S4C)<br>• Stefano Ghazzali (Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor)<br>• Robin Owain (Wicimedia)<br><br>*Trefnir gan Hacio'r Iaith* |
| **Dydd Iau**<br><br>**15:50-16:30**<br><br>*Ystafell Seddon* | **O lygad y ffynnon – dathlu cyfraniad Gwerddon i faes ymchwil ac ysgolheictod yng Nghymru, a thu hwnt.** Darlithoedd meicro yn seiliedig ar erthyglau am iaith a diwylliant a gyhoeddwyd yn *Gwerddon*<br><br>Dewch i ddathlu deuddeg mlynedd a dros gant o erthyglau yr e-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cym-raeg. Ers 2007 mae Gwerddon wedi symbylu a chynnal trafodaeth academaidd ar draws ystod eang o feysydd ac wedi creu cronfa o waith ysgolheigaidd at ddefnydd myfyrwyr ymchwil ac academyddion cyfrwng Cymraeg. www.gwerddon.cymru<br><br>Bydd dau academydd yn cyflwyno eu hymchwil a'u herthyglau.<br><br>**Siardwyr:**<br>• Dr Ioan Matthews—Cadeirydd (Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)<br>• Dr Lowri Cunnington Wynn (Prifysgol Aberystwyth):– 'Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?': Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg (Enillydd Gwobr Gwerddon yn 2019)<br>• Dr Iwan Wyn Rees (Prifysgol Caerdydd) 'Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o anawsterau ynganu ymhlith dysgwyr yr iaith' (ysgrifennwyd ar y cyd â Dr Jonathan Morris)<br><br>*Trefnir gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* |
| **Dydd Iau**<br><br>**15:50-16:30**<br><br>*Ystafell y Cyngor* | **Y Mentrau Iaith- cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned**<br>Trafodaeth Banel<br>Yr heriau, llwyddiannau a datblygiadau arloesol.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Iwan Hywel (Mentrau Iaith Cymru)<br>• Lowri Jones (Mentrau Iaith Cymru a Menter Iaith Caerffili)<br><br>*Trefnir gan Mentrau Iaith Cymru* |
| | |
| **Dydd Iau**<br><br>**16:35-17:35**<br><br>Sesiwn Lawn<br><br>*Hen Neuadd* | **Cymru yn y Byd**<br>Eluned Morgan yn holi dau o'n llenorion mwyaf disglair, Alys Conran ac Eurig Salisbury, am eu siwrneau rhyngwladol drwy iaith a diwylliant.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Eluned Morgan AC - Cadeirydd (Llywodraeth Cymru)<br>• Alys Conran<br>• Eurig Salisbury (Prifysgol Aberystwyth)<br><br>*Mewn partneriaeth â Hay Festival* |

# Dydd Gwener, 29 Tachwedd

| | |
|---|---|
| **Dydd Gwener**<br><br>**09:30-10:30**<br><br>Sesiwn Lawn<br><br>*Hen Neuadd* | **Betsan Powys yn holi Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**<br><br>Bydd Betsan yn holi'r Gweinidog am ei gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg, yr her o wireddu'r nod of filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'r cyfle i hybu Cymru ledled y byd fel gwlad ddwyieithog.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Betsan Powys—Cadeirydd<br>• Eluned Morgan, AS (Llywodraeth Cymru)<br><br>*Trefnir gan Lywodraeth Cymru* |
| | |
| **Dydd Gwener**<br><br>**10:35 -11:20**<br><br>*Hen Neuadd* | **Buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf: rhoi'r Gymraeg i'n plant ifancaf**<br>Trafodaeth Panel<br><br>Sut gallwn ni drosglwyddo iaith i blant ifanc? Dyna'r pwnc sy'n cael ei drafod yn y sesiwn yma, sy'n ystyried gwahanol sefyllfaoedd, boed yn y cartref neu leoliadau gofal plant. Byddwn yn trafod yr heriau sydd ynghlwm wrth sicrhau gweithlu addas, a sut i sicrhau'r safonau uchaf.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Efa Gruffud Jones - Cadeirydd (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)<br>• Gwenllian Lansdown Davies (Mudiad Meithrin)<br>• Llinos Roberts (Camau)<br>• Kevin Davies (Estyn)<br><br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin.* |
| **Dydd Gwener**<br><br>**10:35 - 11:20**<br><br>*Ystafell Seddon* | **Tiriogaeth, rhwydweithiau a lleoliadau: cynllunio iaith i'r Gymru gyfoes**<br><br>Gweithdy ymarferol ar gyfer unigolion sy'n gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg fydd yn ystyried newidiadau cymdeithasol cyfoes a'u goblygiadau i sut ddylid cynllunio ymyrraethau sy'n hybu defnydd o'r iaith. Caiff y gweithdy ei seilio ar waith ymchwil gyhoeddwyd yn y gyfrol ddiweddar *New Geographies of Language: Language, Culture and Politics in Wales* (Palgrave, 2019).<br><br>**Cyfrannwyr:**<br>• Yr Athro Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth)<br>• Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth)<br><br>*Trefnir gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru – WISERD@Aberystwyth* |
| **Dydd Gwener**<br><br>**10:35 - 11:20**<br><br>*Ystafell Y Cyngor* | **Y Bardd Cenedlaethol – a Rhyngwladol?** Eurig Salisbury yn holi'r prifardd Ifor ap Glyn<br><br>Sgwrs ddifyr â'r Bardd Cenedlaethol am heriau'r swydd, ei obeithion ar gyfer y tair blynedd nesaf, a pham ei fod wedi blino ar fod ar yr 'ymylon Celtaidd'.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Eurig Salisbury—Cadeirydd (Prifysgol Aberystwyth)<br>• Ifor ap Glyn (Prifardd Cymru)<br><br>*Trefnir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru* |

| | |
|---|---|
| | |
| **Dydd Gwener**<br><br>**11:45-12:30**<br><br>*Hen Neuadd* | **Camu i lwyfan byd-eang – meithrin perthynas gyda phartneriaid rhyngwladol i hyrwyddo iaith, diwylliant ac ysgolheictod Cymru**<br>Cewch glywed am gynlluniau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol, cyn troi at ddau ddarlithydd sydd wedi treulio cyfnodau ymchwil yn Unol Daleithiau America yn ddiweddar. Bydd Gwenllian Beynon yn rhannu ei phrofiadau o ymweliad â Chanolfan Madog ym Mhrifysgol Rio Grande gan ffocysu ar gof y Cymry mewn gwrthrychau a rôl arlunydd yn hwyluso gweithdai celf. Bydd Dr Huw Williams yn myfyrio ar yr hyn a ddysgodd yn ei ymweliad â Phrifysgol Michigan State yng nghyswllt trafodaethau athronyddol a gwleidyddol o gwmpas diwylliannau lleiafrifol<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Rhian Jones - Cadeirydd (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)<br>• Gwenllian Beynon (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant)<br>• Dr Huw Williams (Prifysgol Caerdydd)<br><br>*Trefnir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* |
| **Dydd Gwener**<br><br>**11:45-12:30**<br><br>*Ystafell Seddon* | **Rhannu a dysgu yn rhyngwladol: Hybu defnydd iaith drwy chwaraeon – achos Gwlad y Basg**<br>Dros y blynyddoedd mae ystod o bobl o Gymru, boed yn weision sifil, swyddogion, ymgyrchwyr ac addysgwyr, wedi ymwneud â gwahanol rwydweithiau rhyngwladol i rannu arfer da a hefyd ddysgu gwersi pwysig. Un wlad lle mae'r sefyllfa ieithyddol yn debyg iawn i Gymru, ond eto lle ceir sawl achos o arfer da wrth geisio hybu defnydd iaith, yw Gwlad y Basg. Yn ystod y sesiwn hon bydd cyfle i ddysgu am brosiect arloesol i hybu defnydd o'r Fasgeg trwy weithio gyda chymdeithasau chwaraeon. Dewch i glywed mwy am y prosiect hwn a'i gyfraniad at y prosiect adfywio iaith yng Ngwlad y Basg.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Gwenllian Lansdown Davies - Cadeirydd (Mudiad Meithrin)<br>• Ana Mª De Castro Rubalcaba (Cyngor Taleithiol Bizkaia)<br><br>*Trefnir gan Rhwydwaith Ymchwil Iaith, Diwylliant a Hunaniaethau WISERD* |
| **Dydd Gwener**<br><br>**11:45-12:30**<br><br>*Ystafell Y Cyngor* | **Trawsnewid digidol – arferion da dysgu iaith**<br>Trafodaeth Panel<br><br>Dysgu Digidol sydd dan sylw yn y sesiwn yma, sy'n ystyried manteision dulliau amrywiol o ddysgu iaith i oedolion o wahanol safbwyntiau. Byddwn yn trafod dulliau newydd o gyflwyno cyfleoedd dysgu a sut y gallwn ddiwallu anghenion dysgwyr i'r dyfodol.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Dona Lewis - Cadeirydd (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)<br>• Deborah McCarney (SaySomethingin)<br>• Jonathan Perry (Dysgu Cymraeg Gwent)<br><br>*Trefnir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn cydweithrediad â SaySomethingIn* |
| | |
| **Dydd Gwener**<br><br>**12:35-13:10**<br><br>Sesiwn Lawn<br><br>*Hen Neuadd* | **Cloriannu a Chloi**<br>Betsan Powys yn holi Aled Roberts,a'r Athro Rhys Jones am argraffiadau o'r trafodaethau, a chasgliadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>**Cyfrannwyr:**<br>• Betsan Powys - Cadeirydd<br>• Aled Roberts (Comisynydd y Gymraeg)<br>• Yr Athro Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth) |